



PENNAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Rhif y Swydd: 505605

37 Awr yr wythnos

Gradd: Bydd y Pennaeth Gwasanaeth

Cyflog: £69,283 y flwyddyn

Mae cyfle wedi codi o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer Pennaeth Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu parhaol. Bydd y swydd hon yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Newid a Thrawsnewid Strategol a bydd yn aelod gweithgar ac annatod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Lleolir y swydd ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX, gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer gweithio o bell.

Bydd y Pennaeth Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu yn darparu cyngor, her a chymorth rhagweithiol, strategol, moesegol a phragmatig i'r Prif Swyddog, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd Comisiynwyr, gan sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu yn chwarae rhan greiddiol wrth ddarparu gwasanaethau a llwyddiant y sefydliad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan annatod o'r Tîm Arwain Strategol i ddarparu cyngor strategol, arweiniad, ac arweinyddiaeth o'r swyddogaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Cyfryngau, Dylunio a Chyfathrebu). Bydd y rôl hon yn gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu gynhwysfawr sy'n cael ei llywio gan ddata sy'n cyflawni amcanion y Gwasanaeth, ac yn hyrwyddo ei ddiben, ei weledigaeth, a'i werthoedd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr cyfathrebu proffesiynol cyflawn, gyda'r gallu i arwain ar draws y disgyblaethau cyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwch yn drawsnewidiol yn eu hymagwedd ac yn dangos aliniad i God Moeseg Craidd CCPT.

SUT I YMGEISIO:

Dylai ymgeiswyr gwblhau ein cais ar-lein y gellir ei gyrchu yma: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/>. Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi cysylltwch drwy law ebost â: personel@decymru-tan.gov.uk. Dylai ymgeiswyr mewnol ymgeisio drwy law eich porth CORE, drwy ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

O fewn eich cais ar-lein rydym yn gofyn i chi uwchlwytho'r 2 ddarn canlynol o wybodaeth:

1. Eich CV
2. Datganiad ategol yn amlinellu'r ymatebion i'r ddau gwestiwn isod: Ni ddylai eich ymateb i'r ddau gwestiwn canlynol fod yn fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm o 1000 o eiriau)

Cwestiwn 1 - Amlinellwch eich sgiliau a'ch profiad perthnasol mewn perthynas â'r Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person sydd ynghlwm wrth yr hysbyseb hwn.



Cwestiwn 2- Rhowch ddatganiad o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl. Yn amlinellu sut rydych chi'n teimlo bod eich sgiliau, profiad, ymddygiad a gwerthoedd yn cyd-fynd â Chod Moeseg Craidd CCPT.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 08:00yb Ddydd Llun y 26ain o Awst 2024.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y swydd, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid drwy law e-bost: d-mika@decymru-tan.gov.uk

Gwybodaeth Ychwanegol:

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r swydd cyn gynted â phosibl.

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol, a bydd angen cael gwiriad trwydded yrru.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

